O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2012 Rhif 1145 (Cy. 138)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A494/A550 (Queensferry, Sir y Fflint) (Terfyn Cyflymder 50 mya Dros Dro) 2012

Gwnaed	*24 Ebrill 2012*
Yn dod i rym	*27 Ebrill 2012*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Dolgellau i Fan i'r De o Benbedw (A494/A550) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd") wedi'u bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd perygl tebygol i'r cyhoedd.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 27 Ebrill 2012 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A494/A550 (Queensferry, Sir y Fflint) (Terfyn Cyflymder 50 mya Dros Dro) 2012.

2. —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "y darn o'r gefnffordd*" ("the length of the trunk road")* yw'r darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 1389 o fetrau i'r gogledd o bwynt canol Cyfnewidfa Queensferry hyd at bwynt 325 o fetrau i'r gogledd o bwynt canol y cyfryw Gyfnewidfa.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

3. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 4, ni chaiff neb yrru na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 50 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd.